Bwrdd Gweithredol Tŷ'r Cwmnïau – crynodeb o'r cofnodion – 28 Gorffennaf 2009

Ymweliad yr Ysgrifennydd Parhaol, Dydd Iau, 30 Gorffennaf
Byddai Simon Fraser yn ymweld â'r swyddfa ar ddydd Iau. Byddai'r ymweliad yn cynnwys cyflwyniad cryno, cylchdaith drwy'r swyddfa ac arddangosiad o'n e-wasanaethau.

Canlyniadau Diwrnod-i-ffwrdd y Bwrdd Llywio
Gan adeiladu ar sail prif ganlyniadau'r diwrnod i ffwrdd, trafododd y Bwrdd sut y gellid tynnu'r gwahanol elfennau at ei gilydd gyda golwg ar ystyried y llwybr y dylai Tŷ'r Cwmnïau ei ddilyn i ddod yn sefydliad o'r radd flaenaf. Yn sgil y trafodaethau, y blaenoriaethau oedd: Canolbwyntio ar y Cwsmer, Arweiniad Cryf, Staff wedi'i Rymuso a Meithrin Cydgyfrannu.

Sefyllfa Ddiweddaraf CAP
Roedd y rhaglen yn dal i fodloni'r amserlen a chawsid sylwadau cadarnhaol yn sgil adolygiad diweddar y Swyddfa Masnach Lywodraeth (OGC). Roedd hyfforddiant yn gwneud cynnydd da ac roedd pawb o'r staff ar barod ar gyfer 1 Hydref, y dyddiad gweithredu.

Sefyllfa Ddiweddara'r Rhaglen E100
Yn sgil gweithredu e-PROOF, roedd egni pawb yn canolbwyntio bellach ar y Prosiect Gallu Electronig Uwch (EECP), a fyddai'n bwrw ymlaen yn unol â dulliau datblygu sionc. Roedd y prosiect yn gwneud cynnydd da ac roedd y gwaith datblygu yn tynnu at ei ddiwedd.

Sefyllfa Ddiweddaraf Bwrdd Busnes yr Asiantaeth (ABB) a Cherdyn Sgorio mis Mehefin
Cyflwynodd yr ABB ei sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y mis i'r Bwrdd. At ei gilydd, buasai'n fis cyson o ran e-ffeilio, Boddhad y Cwsmer a Swmp-gynhyrchion.

Cyflawniad Ariannol
Cafodd Pecyn Cyfleu Manylion Ariannol mis Mehefin ei gylchredeg er gwybodaeth ymhlith yr aelodau.

Gweinyddu'r Drefn Cosbau Ffeilio Hwyr
Trafododd yr aelodau y materion a gyflwynwyd a bu iddynt gytuno y dylai achos busnes cydnerth gael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Trysorlys i'w ystyried ymhellach.

Adolygu Risgiau Gweithredol Tyngedfennol
Adolygodd y Bwrdd y gofrestr risgiau gyfredol, gan gymeradwyo'r diwygio i rai o'r portreadau risg a gyflwynwyd.

Ysgrifenyddiaeth Tŷ'r Cwmnïau
Gorffennaf 2009